Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd: **Swyddog Hyfforddi ac Achredu**

Cyfrifol i: **Prif Weithredwr**

Cyflog: **Graddfa SO2/PO1**

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Cydgysylltu, trefnu a chyflenwi gweithgareddau hyfforddi ac achredu ar gyfer CLIC a ProMo-Cymru.

Oherwydd natur y swydd hon, bydd y penodiad yn ddarostyngedig i ddatgeliad CRB manwl.

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Datblygu/cyflawni statws canolfan hyfforddi ProMo-~Cymru.
- Gweithio gyda thîm CLIC i ddatblygu systemau achredu a chyflawni i bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn CLIC, i sicrhau bod eu cynnwys yn y tymor hir a thymor byr yn cael ei gydnabod.
- Nodi darparwyr hyfforddiant sy'n bodoli'n barod a phersonel allweddol sydd wedi eu hyfforddi yn barod hyd at Nod Ansawdd ar gyfer darpariaethau Gwybodaeth a Chyngor.
- Cynorthwyo i ddatblygu a chyflenwi fframwaith hyfforddiant Sicrhau Ansawdd i staff a phobl ifanc.
- Nodi anghenion hyfforddi o fewn darpariaethau ardal leol mewn perthynas â CLIC.
- Datblygu a diweddaru deunyddiau ABCh presennol CLIC a mwy o ddeunyddiau hyfforddi ar gyfer CLIC gyda Rheolwr Technoleg y Cyfryngau a Thîm CLIC.
- Trefnu, cyflawni a chefnogi gweithgareddau gweithdai hyfforddi gyda phobl ifanc, gan ymgysylltu â gweithwyr cysylltiedig, swyddogion proffesiynol a gwirfoddolwyr i ddatblygu CLIC yn barhaus.
- Trefnu achrediad/cydnabyddiaeth lle bo hynny'n briodol a lle gwnaed digon o gynnydd/datblygiad gydag unigolion ar draws holl ranbarthau Cymru.

Yn ychwanegol at y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau uchod disgwylir i ddeiliad y swydd ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a thasgau eraill sy'n ofynnol i sicrhau bod y prosiect yn cyflawni ei amcanion a'i ganlyniadau yn llwyddiannus.

Manyleb y Gweithiwr

Gofyniad	Hanfodol	Dymunol	Sut y caiff ei Nodi/ Asesu
Addysg / Cymwysterau:	Wedi graddio mewn pwnc perthnasol neu 3 blynedd o brofiad cyfatebol mewn rôl debyg		Ffurflen gais
Profiad:	Profiad o gyflenwi gweithdai a rhaglenni hyfforddi Profiad o ddatblygu deunyddiau hyfforddi Lefel uchel o lythrennedd TG gan gynnwys technolegau'r we ac aml-gyfrwng	Profiad o weithio mewn sefydliad statudol/gwirfoddol gydag ieuenctid. Profiad o weithio gyda phobl ifanc i ennill achrediad	Ffurflen gais a chyfweliad Ffurflen gais a chyfweliad Ffurflen gais a chyfweliad
Sgiliau/Gwybodaeth:	Dealltwriaeth o ddarpariaeth ieuenctid yng Nghymru Gwybodaeth am ddarparwyr hyfforddiant ar draws Cymru Gallu i ddatrys problemau Sgiliau trefniadaethol	Gwybodaeth am systemau achredu pobl ifanc.	Ffurflen gais a chyfweliad Cyfweliad Cyfweliad Cyfweliad
Priodoleddau Personol:	Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol ardderchog Brwdfrydedd Bod yn gallu gweithio yn ddigymell		Cyfweliad Cyfweliad Cyfweliad

Gofynion eraill:	Parodrwydd i weithio min nos a phenwythnosau Trwydded yrru gyda'ch cludiant eich hun Siaradwr Cymraeg rhugl		Ffurflen gais a chyfweliad